

## Diarhebion 22:1-16

### 'GWOBR ... OFN YR ARGLWYDD'

#### Cyfoeth

Mae arian a chyfoeth – neu eu habsenoldeb – yn rhan annatod o fywyd dynol. Gan fod caru arian yn achosi pob math o ddrygioni (1 Tim. 6:10), fodd bynnag, mae'n bwysig cael yr agwedd gywir ato. Dyna ergyd nifer o'r damhegion yma.

Gosodiad cyffredinol sydd yn adnod 7: ar y cyfan, mae'n wir fod y 'cyfoethog yn rheoli'r tlawd'. Ond y temtasiwn wedyn yw gormesu'r tlawd er mwyn ychwanegu at y cyfoeth; ac yn y pen draw bydd canlyniadau difrifol i'r ymagweddu sarhaus hwn (16). Gwell o lawer yw meithrin agwedd iach at gyfoeth. Mae lle priodol i arian ac aur – ond mae pethau pwysicach i'w cadw mewn golwg (1). Bydd Duw yn siŵr o wobrwyo ei bobl (4). Bydd eu gwobr yn gyflawn yn y nefoedd (Math. 19:28-29; 1 Ped. 1:4); ond os daw cyfoeth i'w rhan ar y ddaear maent i'w ddefnyddio'n hael i gynorthwyo'r anghenus (9). Yn y diwedd daw'r tlawd a'r cyfoethog i'r un man, sef o flaen Duw eu Creawdwr i roi cyfrif iddo am eu bywydau (2). Nid oes lle i ymfrostio mewn cyfoeth, felly; yn hytrach, rydym yn atebol i Dduw am ein defnydd ohono.

#### Canfod

Yn ogystal â chanfod gwir werth cyfoeth, rhaid canfod peryglon drygioni, er mwyn dianc mewn pryd (3). Rhwydd iawn mynd gyda'r dorf, heb ganfod fod y ffordd – er yn llydan braf – yn arwain i ddistryw (Math. 7:13). Ceir enghraifft benodol o bwysigrwydd y canfod hwn yn adnod 14, er rhybudd i ni. Ar yr un pryd mae Duw yn canfod y peryglon i ddoethineb a deall, gan eu gwarchod a'u diogelu er mwyn dangos eu gwerth (12).

#### Cyfarwyddo

Os yw dysgu trin arian yn ddoeth yn bwysig, felly hefyd ddysgu trin plant. Mae angen rhoi cyfarwyddyd doeth, cytbwys, a sensitif i blentyn o'r cychwyn (6). Ond rhaid wrth rywbeth mwy na chyfarwyddyd cyffredinol, gan mai pechaduriaid ydym ni a phechaduriaid yw ein plant. 'Y mae ffolineb ynghlwm wrth feddwl [neu galon] plentyn', a rhaid cymryd camau priodol i ddelio â'r broblem (15). Nid creulondeb sydd yma, ond canfod y gwir am y natur ddynol, hyd yn oed mewn plentyn.